

Cyhoeddir Rhagolwg gan Rieni dros Addysg Gymraeg, Tŷ Cymru, Greenwood Close,  
Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd CF23 8RD ffôn: 029 2073 9207 ffacs: 02920 739201

# Dim lle i'r chweched?

MAE CHWECHED dosbarth ysgolion Cymraeg Rhondda Cynon Taf dan berygl o ddiffannu mewn cynllun brawychus gan y cyngor sydd yn anwybyddu'r ddarpariaeth Gymraeg bresennol. Mae ateb ffyrnig wedi bod i gynlluniau Rhondda Cynon Taf i ganoli pob darpariaeth chweched dosbarth, boed hynny mewn ysgolion Saesneg neu Gymraeg, yn dair canolfan "dwyieithog".

Daw hyn fel ymateb uniongyrchol y cyngor sir i ofynion Agenda Trawsnewid Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas ag addysg ôl-16.

Yn ôl RhAG, mae'r cynlluniau yma yn groes i ddatganiad y Llywodraeth yn ei Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg taw dim ond mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg y mae modd datblygu sgiliau cyflawn dwyieithog. Bu'r mater yn bwnc trafod ers blyneddod, byth er pan soniodd Llywodraeth y Cynulliad am ei bwriad i drosglwyddo holl addysg 16+ i'r sector addysg bellach er mwyn cynnig ystod ehangach o bynciau i fyfyrwyr, gan gynnwys rhai galwedigaethol. Ond haerodd prif weinidog y cyfnod, Rhodri Morgan, "na fyddai hyn, fodd bynnag, yn bosibl mewn ardaloedd gwledig neu mewn addysg cyfrwng Cymraeg" - bu adroddiad ar hyn yn Rhagolwg yn Ionawr 2004.

Mewn gwirionedd, mae ysgolion uwchradd Cymraeg mewn rhai siroedd, gan gynnwys yr hen Went ac Abertawe, eisoes yn cydweithio'n helaeth gyda'i gilydd ac yn llwyddo trwy hynny i ddarparu yr union ystod eang o bynciau a ddisgwyllir gan y Llywodraeth - ond, yn bwysig iawn, mae hynny'n digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg ac mewn awyrgylch Cymraeg sydd mor allweddol mewn atgyferthu sgiliau Cymraeg y myfyrwyr. Mae sawl un wedi nodi ei bod hi'n ffenomenon yn yr ardaloedd Seisnigedig taw yn y chweched dosbarth y mae myfyrwyr yn llawn fagu'r hyder angenrheidiol i ddefnyddio eu Cymraeg ym mhob agwedd ar fywyd a ddaw yn sgil eu blyneddod o addysg Gymraeg. Y chweched dosbarth i bob pwrpas sy'n llwyddo i grisialu profiad addysg Gymraeg i ddisgwyllion. Mae'n hysbys bod pwysau cymdeithasol lle mae myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn cael eu dysgu ochr yn ochr â myfyrwyr cyfrwng Saesneg yn golygu bod pawb yn tueddu troi at y cyfrwng cyffredin, sef Saesneg, a cholli eu sgiliau dwyieithog.

Mae RhAG yn annog cyngor Rhondda Cynon Taf i ddilyn esiampl siroedd eraill a chadw'r chweched



## Lleoliadau ysgolion Cymraeg Rhondda Cynon Tâf

dosbarth yn rhan annatod o'u hysgolion Cymraeg.

Meddai Lynne Davies, Cadeirydd RhAG, "Gallai'r cyngor edrych ar esiampl Castell Nedd Port Talbot lle mae Ysgol Gyfun Ystalafera wedi'i heithrio o'r cynlluniau ad-drefnu. Gallai hefyd edrych ar y cydweithio traws-sirol rhwng Ysgol Gwynllyw yn Nhorfaen ac Ysgol Cwm Rhymni yng Nghaerffili. Mae digon o enghreifftiau o arfer da yn bodoli."

Mae bwriad Rhondda Cynon Taf hefyd wedi amlygu anhawster y sefyllfa wleidyddol. Mae'r aelod Cynulliad lleol, sef Leighton Andrews, erbyn hyn yn weinidog addysg y Llywodraeth ac yn gosod polisi addysg ar yr un pryd â gorfod dyfarnu cynigion fel hwn gan RhCT. Mae RhAG yn cwestiynu deuloliaeth y sefyllfa hwn a'r ffaith ei fod yn llesteirio datblygiad addysg Gymraeg.



Lynne Davies

## Cadeirydd newydd RhAG

CAFODD Lynne Davies ei hethol fel Cadeirydd Cenedlaethol RhAG yn y Cyfarfod Blyneddol. Un o Gaerfyrddin yn wreiddiol, bu'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin. Ar ôl astudio biocemeg a chyfnodau o ymchwil meddygol yn Rhydychen, Ffrainc a Llundain, symudodd Lynne yn ôl i Gymru, gan ymgartrefu ryw bum mlynedd yn ôl yng Nghaswent. Bellach mae'n gweithio rhan amser i Cancer Research UK.

Meddai Lynne, "Mae'n fraint cael gwahoddiad i gadeirio RhAG.

"Fel rhiant i dri o blant sy'n mynychu Ysgol Gyfun Gwynllyw yn Norfaen ac Ysgol y Ffin yn Sir Fynwy, rwy'n ymwybodol iawn o'r heriau sy'n wynebu ysgolion Cymraeg a'r rheini sy'n dewis addysgu eu plant yno.

"Er y cynnydd aruthrol yn y sector, sy'n deyrnged i waith diflino rhieni Cymru dros y degawdau diwethaf, hyd yma does yna ddim digon o ddarpariaeth leol sy'n golygu bod ein plant yn gorfod teithio oriau maith yn aml iawn i gael addysg cyfrwng Cymraeg. Yn sylfaenol mae gormod o rwystrau yn parhau i wynebu addysg cyfrwng Cymraeg."

Cynhaliwyd cynhadledd flynyddol mudiad Rhieni dros Addysg Gymraeg fis Hydref yn Ysgol y Bannau, Aberhonddu. Roedd prif ffocws y gynhadledd ar yr heriau sy'n wynebu sir wledig fel Powys, megis cludiant.

Y siaradwyr gwadd oedd Sian Davies, Pennaeth Ysgol Dafydd Llwyd a David Evans, Pennaeth Ysgol Uwchradd Caereinion.

Cafwyd aethiau ysbyrdoledig gan y siaradwyr a chafwyd trosolwg effeithiol iawn o'r heriau hynny sy'n wynebu ysgolion penodedig Gymraeg yn y sir.

Cefnogi Gwaith Cartref  Welsh Homework Support

0871 230 0029

post@cefnogiwactref.com post@homeworkinwelsh.com  
Sef - Gwener 3.00pm - 9.00pm Sundar - Ffriday

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn ac i'r wefan [www.rhag.net](http://www.rhag.net).

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y Llinell Gyswilt:

**0845 6076070**

(cyfradd galwadau lleol)

Llun-Gwener  
10.00am-12.30pm/1.30-3.30pm

# Camau breision Caerdydd

MAE Caerdydd sawl cam bras yn nes at gael ei thrydedd ysgol uwchradd Gymraeg erbyn hyn. Mae'r cyngor wedi datgan yn swyddogol ei fod am gau un ysgol Saesneg (Llanedeyrn High), symud ysgol Eglwysig (St Teilo) i'r safle yna, gan ryddhau safle ar gyfer ysgol newydd Gymraeg. Mae disgwyl i Llanedeyrn High gau dros y cyfnod 2010-2014 ac i St Teilo ddechrau meddiannu'r safle o 2011 ymlaen. Bydd yr ysgol newydd Gymraeg yn agor gyda hyd at chwe dosbarth o flwyddyn 7 yn 2012 ac yn rhannu'r adeilad gyda St Teilo am ddwy flynedd. Nid oes penderfyniad eto am ddalgyllch yr ysgol newydd ond mae'n hysbys nad yw'r sir yn awyddus i weld teithio afraid. Ar sail hyn mae'n rhesymol disgwyl y bydd yr ysgol yn cael ei bwydo gan Y Berllan Deg, Bro Eirwg a Glanymorfa i ddechrau a chan Y Dderwen (Trowbridge) o 2014 ymlaen, sef chwe ffrwd.

Yn y cyfamer mae estyniadau a gwellianau ar y gweill i'r ysgolion uwchradd Cymraeg presennol, sef Plasmawr a Glantaf, fydd yn eu galluogi i dderbyn plant ychwanegol hyd at 2012, ond hefyd ar gyfer y cyfnod 2015 i 2018 pan fydd angen agor pedwaredd ysgol uwchradd i dderbyn y 25 ffrwd (o leiaf) sy'n debyg i geisio addysg uwchradd erbyn y flwyddyn honno.

Yn y sector cynradd, mae popeth wedi bod yn y pair: mae Ysgol Tan-yr-eos mewn adeilad dros dro i'w galluogi i gartrefi ei phlant nes bod sefyllfa ysgolion Treganna wedi'i phenderfynu gan y Gweinidog Addysg. Mae RhAG yn pwyso am gynllun i ddarparu ar gyfer 5ed ffrwd yn ardal Treganna/Pontcanna/Trefynach (Grangetown); mae'n werth nodi bod y sir yn bwriadu ystyried uno ysgolion Saesneg lau a Meithrin Trefynach. Mae sicrwydd darpariaeth newydd i ardaloedd y Caerau a Threlai yn ysgol Nant Caerau, tra bod y dosbarth cychwynnol yng Ngabalfa, sydd ar hyn o bryd o dan ofal Ysgol Melin Gruffydd, wedi cael sêl bendith y Gweinidog Addysg yn ychwanegol at gynllun arall Cyngor Caerdydd, sef symud ysgol newydd y dwyrain o Oakfield i Trowbridge. Bydd Ysgol Saesneg Cefn Onn yn cau gan ryddhau ei hadeilad at ddefnydd Ysgol Y Wern drws nael a bydd y swyddogion yn ceisio trefnu i'r Wern gael defnyddio rhai o ystafelloedd gwag Cefn Onn cyn i'r ysgol gau yng Ngorffennaf 2011. Agorodd ysgol newydd arall i wasanaethu Pentwyn a Chyncoed gyda'r enw Ysgol Penygroes ac yn rhannu safle ysgol Saesneg Bryn Celyn.

Michael L N Jones

## Ateb y galw

YN DILYN canfyddiadau cadarnhaol yr arolwg mesur galw a gynhaliwyd gan Gyngor Torfaen, mae'r awdurdod lleol yn bwriadu agor ysgol gynradd newydd fis Medi eleni. Bydd Ysgol Panteg yn agor yn Griffithstown, sydd yn ddaeryddol ynghanol y sir ac felly'n leoliad delfrydol ar gyfer diwallu'r angen presennol yn y byr dymor.

Law yn llaw â'r datblygiad cyffrous hwn, mae partneriaeth marchnata wedi'i ffurfio i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â manteision addysg Gymraeg a dwyieithrwydd. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy, Mudiad Ysgolion Meithrin, yr Urdd, RhAG, yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a chynghorwyr.

Cafwyd caniatâd Bwrdd yr Iaith Gymraeg i wneud defnydd o logo eu cynllun marchnata 'Cymraeg Kids Soak it Up'. Cynhaliwyd nifer o weithgareddau yn ystod mis Hydref a Tachwedd ynghyd ag ymgyrch yn y wasg fydd yn parhau hyd at ddiwedd Ionawr 2010, pan fydd cyfnod dewisiadau rhieni o ran ysgolion yn dirwyn i ben. Llwyddoedd yr ymgyrch i ddenu nawdd oddi wrth Gronfa Glyndŵr i gynhyrchu taflen sy'n cynnwys manylion yr holl fudiadau Cymraeg sy'n gweithio i hybu'r iaith o fewn y sir.

# Y bychain yn fawr

Cyd-loffnodwyr y datganiad "Bychain yn Fawr" yng Ngwlad y Basg.

YN YSTOD mis Hydref cafodd RhAG wahoddiad arbennig iawn i fynychu gwyl flynyddol yng Ngwlad y Basg.

Daeth y gwahoddiad ar ran ysgol Andra Mari Ikastola ynghyd â Ffederasiwn Ikastolas Navarre i fynychu Nafarroa Oinez 2009 dan y teitl 'Txikiak Handi' (Bychain yn fawr). Yn ogystal â chynnig cyfle i ddathlu'r Fasgeg, prif bwrpas cynnal yr ŵyl oedd i godi arian ar gyfer addysg Fasgeg. Yn wahanol i Gymru nid yw'n cael ei ariannu'n llawn gan y wladwriaeth ac o'r herwydd mae'n ofynnol i rieni ymgyrchu'n galed i godi arian digonol er mwyn cynnal yr ysgolion. Amcangyfrifir bod oddeutu 100,000 o bobl yn mynychu'r ŵyl yn flynyddol.

Pleser felly oedd cael cynrychioli RhAG a hynny ar y cyd â Sioned Haf, Swyddog Lobio Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Derbyniodd unigolion yn cynrychioli pedair o ieithoedd lleiafrifol Ewropeaidd eraill wahoddiad yn ogystal, sef Catalwnia, Aragon, Llydaw ac Occitania.

Prif amcan ein gwahodd oedd i ddathlu amrywiaeth ieithoedd lleiafrifol Ewrop gyda'r bwriad o ffurfio dolen gyswllt rhyngom. Dyma wrth gwrs oedd tarddiad enw'r ŵyl sef 'Txikiak Handi' (Bychain yn fawr) sy'n adleisio gwirioneddau'r wireb mewn undeb mae nerth.

Trefnwyd deuddydd o weithgareddau ar ein cyfer gan gynnwys cyfarfod cychwynnol ble cafwyd cyflwyniadau gan saith o grwpiau a mudiadau sy'n gweithio i normaleiddio'r defnydd o'r Fasgeg mewn ystod eang o feysydd. Cafwyd cyfle hefyd i'r holl wledydd gwahoddedig i wneud cyflwyniad byr ar sefyllfa ein ieithoedd brodorol ninnau ac i grynhoi heriau a siâlensau'r dyfodol. Diddorol oedd nodi mai'n sylfaenol, yr un bygythiadau sy'n wynebu'r holl ieithoedd gyda'r mwyaf heriol yn eu plith sef y gwaith o ddarbwylo a chymhell pobl ifanc i ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol.

Y diwrnod canlynol cafwyd ymweliad gyda ikastola yn Iruñea-Pamplona sef ysgol a adeiladwyd gyda'r arian sylweddol y llwyddwyd i'w godi wrth gynnal gwyl Nafarroa Oinez rai blynyddoedd yn ôl. Braff oedd cael bod yn dyst i weld ffrwyth llafur a dycnwch y Basgwyr ynghyd a dysgu ychydig ynglŷn â strwythur y system addysg yno. Yn arwyddocaol yr hyn a'm tarodd oedd cyfranogiad ac ymroddiad di-flino rhieni yn y gwaith o redeg a chynnal yr ysgolion, boed hynny ar lefel



ymarferol, yn weinyddol neu trwy godi arian.

Cynhaliwyd yr ŵyl 'Txikiak Handi' ar y dydd Sul. Trefnwyd seremoni swyddogol gan Ikastola Andra Mari ble cafwyd cyfle i wneud datganiad yn y Gymraeg gerbron rhai cannoedd o fynychwyr. Yn wir roedd yn brofiad braff cael y cyfle i rannu'r Gymraeg gyda chynulleidfarnad oeddent erioed wedi clywed yr iaith o'r blaen. Bu cyfleoedd gwerthfawr hefyd i wneud cyfweiliadau gyda'r wasg a'r cyfryngau Basgeg oedd eto yn gyfle amhrisiadwy i godi proffil y Gymraeg ar lefel ehangach.

Profiad arbennig iawn oedd bod yn dyst i frwdfrydedd ac egni unigryw y Basgwyr. Ymhellach i hynny roedd yn brofiad bythgofiadwy cael clywed yr holl ieithoedd yn plethu trwy'i gilydd ac yn cyd-sefyll ochr yn ochr. O safbwynt personol bu'r ymweliad yn fodd o'n caniatáu i gamu'n ôl ac i gloriannu sefyllfa'r Gymraeg ac addysg Gymraeg o'r tu allan fel petae.

Yn sicr roedd Nafarroa Oinez 2009 yn gyfle arbennig iawn i adeiladu pontydd ac i ffurfio cyfeillgarwch gyda gwledydd sy'n rhannu'r un weledigaeth â ni yng Nghymru sef i sicrhau goroesiad a pharhâd ein trysor mwyaf fel cenedl, sef ein hiaith.

Fel ffordd o ffurfio a choffhau'r cyfarfod lluniwyd manifesto yn crynhoi galwadau a dyheadau'r ieithoedd lleiafrifol i'r dyfodol. Cyfieithwyd y manifesto i'r 6 iaith lleiafrifol a chafodd pob gwlad gopi yn rhodd. Isod gwelir union eiriad y datganiad sy'n gosod nod a her i ninnau fel mudiadau yn ôl yng Nghymru.

Ceri Owen

## Datganiad 'Bychain yn Fawr'

Ar ran y mudiadau a gynrychiolwn, arwyddwn y canlynol:

### DYMUNWN DDATGAN:

- Fod Ewrop yn aml-ieithog, diolch i'r drefn
- Mae ieithoedd yn drysorau diwylliannol, ac mae'r trysorau hyn yn cynnig amrywiaeth a chyfoeth i wledydd Ewrop.
- Mae ieithoedd yn gwbl angenrheidiol i bwysleisio hunaniaeth gwledydd a phobol a'u datblygiad.

### YRDYDYM AM DDATGAN:

- Hawl ieithoedd lleiafrifol i gael eu parchu.
- Yr hawl i fyw drwy gyfrwng ein hiaith mewn unrhyw agwedd ar fywyd.
- Yr hawl i gael gwarchodaeth a chymorth wrth normaleiddio iaith yn arbennig ym maes addysg.

### YRDYMYN YMRWYMO:

I ddyfalbarhau gyda'r gwaith o normaleiddio ieithoedd fel y gellir codi pontydd rhyngom, gan fod undod y rhai bychain yn ein gwneud yn gryf.



Rhagolwg is published by Rhieni dros Addysg Gymraeg, Tŷ Cymru, Greenwood Close, Cardiff Gate Business Park, Cardiff CF23 8RD tel: 029 2073 9207 fax: 029 2073 9201



Lynne Davies

# End of the Sixth Form?

THE SIXTH forms of Welsh medium schools in Rhondda Cynon Taf risk disappearing in frightening proposals by the county which ignore the structure of the current Welsh medium provision. There has been a furious response to Rhondda Cynon Taf's plans to bring all sixth form provision together, both English and Welsh medium, into three so called "bilingual" centres.

The situation has arisen as the council seeks to respond to the Welsh Assembly Government's Transforming Agenda for post 16 education.


According to RhAG, the plans go against the Government's assertions in its Welsh Medium Education Strategy that fully bilingual skills can only be properly developed in Welsh medium schools. The issue has been a topic of debate for years, ever since the Assembly Government voiced its intention to transfer all post 16 education to the further education sector in order to offer students a wider range of subjects, including vocational. But the First Minister of the time, Rhodri Morgan, asserted, "that this would not, however, be possible in rural areas or for Welsh medium education" - see Rhagolwg January 2004.

In reality, Welsh medium secondary schools in some counties, including the former Gwent counties and Swansea, are already working closely together and succeeding in providing just the wide range of subjects called for by the Government - but, most importantly, doing that through the medium of Welsh and within a Welsh speaking environment, so fundamental to transferring Welsh language skills to the students.

Many have observed the phenomenon in Welsh medium schools in Anglicised areas where students fully develop the required confidence to use their Welsh, acquired through their years of Welsh medium education, in all areas of life. In the sixth form the student's experiences of Welsh medium education all come together. It is well known that social pressures where Welsh medium students are taught side by side with English medium students mean that everyone tends to turn to the common medium of communication, English, thereby losing their bilingual skills.

RhAG urges Rhondda Cynon Taf council to follow the example of other counties and keep the sixth forms as an integral part of their Welsh medium

## Location of Welsh medium schools in Rhondda Cynon Tâf



schools.

Said Lynne Davies, RhAG chair, "The council could look at the example of Neath Port Talbot where Ysgol Gyfun Ystalafera has been left out of the reorganisation plans. It could also look at the cross-county collaboration taking place between Ysgol Gwynllyw in Torfaen and Ysgol Cwm Rhymni in Caerffili. There are plenty of examples of good practice around"

Rhondda Cynon Taf's plans have brought into relief the awkward political situation. The local Assembly Member, Leighton Andrews, is now a minister in the Government setting education policy at the same time as having to adjudicate proposals like those of RCT.

## RhAG chair appointed

LYNNE Davies was elected National Chair of RhAG in its Annual General Meeting. From Carmarthen originally, she attended Ysgol Gyfun Bro Myrddin. After studying biochemistry and periods of medical research in Oxford, France and London, Lynne moved back to Wales, settling some five years ago in Caldicot. Now she works part time for Cancer Research UK.

Said Lynne, "It's an honour to be invited to chair RhAG.

"As a parent of three children attending Ysgol Gyfun Gwynllyw in Torfaen and Ysgol y Ffin in Monmouthshire, I'm very much aware of the challenges facing Welsh medium schools and the parents who choose to educate their children in them.

"Despite the extraordinary growth in the sector, which is testimony to the tireless work of parents in Wales over the last decades, there is still not enough local provision which means our children have to travel long hours very often to receive Welsh medium education. Basically there are too many obstacles continuing to face Welsh medium education."

The RhAG Annual Conference took place in October at Ysgol y Bannau in Brecon. The chief focus of the conference was on the challenges facing rural counties like Powys, such as transport.

The guest speakers were Sian Davies, Head of Ysgol Dafydd Llwyd in Newtown, and David Evans, Head of the bilingual secondary school Ysgol Uwchradd Caereinion.

The speakers gave inspiring speeches and conveyed very effectively the challenges that face Welsh medium provision in the county.

Cefnagi Gwaith Cartref Welsh Homework Support

**0871 230 0029**

post@gwaithcartref.com post@homeworklinewelsh.com  
9am - 9pm 300pm - 9.00pm Sunday - Friday

The Welsh Language Board has kindly supported both this publication and RhAG's website, [www.rhag.net](http://www.rhag.net).

If you need information of any kind about the Welsh Language, ring the Board's Link Line to Welsh:

**0845 6076070**  
(local call rate)

Monday-Friday  
10.00am-12.30pm/1.30-3.30pm

# Great strides in Cardiff

CARDIFF is several steps nearer getting its third Welsh medium primary. The council has announced officially it is to close one English school (Llanedeyrn High), move a Church in Wales school (St Teilo) to that site, freeing a site for a new Welsh medium school. Llanedeyrn High is expected to close during the period 2010-2014 with St Teilo gradually taking over the site from 2011. The new Welsh medium school will open with up to six classes at Year 7 in 2012, sharing the building with St Teilo for two years. No decision has yet been made about the school's catchment area, but it is known the council does not want to see unnecessary travelling. On this basis, it is reasonable to assume that the new school will be fed by Y Berllan Deg, Bro Eirwg and Glanymorfa initially, and additionally by Y Dderwen (Trowbridge) from 2014, i.e. six classes in total.

Meanwhile, there are extensions and improvements ongoing at the existing Welsh medium comprehensives, Plasmawr and Glantaf, which will enable them to take more children up to 2012, and additionally for the period 2015 to 2018 when it will be necessary to open a fourth secondary school to take the 25 (at least) classes likely to be applying for places in secondary education by that year.

In the primary sector there are big changes taking place: Ysgol Tan-yr-eos is in a temporary building to enable it to accommodate its pupils until the status of the Canton schools has been decided by the Education Minister. RhAG is pressing for a scheme to provide for a fifth class in the Canton/Pontcanna/Grangetown area; it should be noted that the county is considering merging the Grangetown junior and nursery schools. There is certainty of new provision for the Caerau and Ely areas in Ysgol Nant Caerau, whilst the starter class at Gabalfa, currently under the aegis of Ysgol Melin Gruffydd, has received the Education Minister's seal of approval in addition to another Cardiff Council scheme, that of moving the new east-side school from Oakfield to Trowbridge. Cefn Onn English school would then close, freeing up buildings for Ysgol y Wern next door. Officers are working on the possibility of using some empty rooms at Cefn Onn before the school closes in 2011. A new school, Ysgol Penygroes, has opened to serve the Pentwyn and Cyncoed areas sharing a site with Bryn Celyn English school.

Michael L N Jones

## Meeting demand

FOLLOWING the positive results of the Welsh medium demand survey carried out by Torfaen Council, the local authority is intending to open a new primary school in September of this year. Ysgol Panteg will open in Griffithstown, geographically in the centre of the county and therefore an ideal location to satisfy the current demand in the short term.

Hand in hand with this exciting development, a marketing partnership has been formed to raise awareness of the advantages of Welsh medium education and bilingualism. The partnership includes the local Menter Iaith, Mudiad Ysgolion Meithrin, the Urdd, RhAG, the Welsh medium schools and councillors.

The Welsh Language Board gave permission to use the logo from its marketing campaign 'Cymraeg Kids Soak it Up'. A range of events was held during October and November in addition to a press campaign which will continue until the end of January 2010, the last point parents decide which school they want to send their children to. The campaign was successful in gaining funding from Cronfa Glyndŵr to produce a leaflet containing details of bodies promoting the Welsh language in the county.

# The small stand tall

Co-signatories of "Small Standing Tall" in the Basque Country.

IN OCTOBER RhAG received a special invitation to attend an annual festival in the Basque Country.

The invitation came on behalf of a school, Andra Mari Ikastola, as well as the Navarre Ikastolas Federation to attend its 'Nafarroa Oinez 2009' under the theme of 'Txikiak Handi' (Small Standing Tall). As well as providing an opportunity to celebrate the Basque language, the main purpose of the festival was to raise money for Basque medium education. Unlike in Wales, it is not fully financed by the state and therefore parents have to campaign hard to raise enough money to keep the schools going. It is estimated that around 100,000 people attend the festival each year.

It was a pleasure, therefore, to be able to represent RhAG at the festival, jointly with Sioned Haf, Lobby Officer for Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Individuals representing four other European minority languages also received an invitation - Catalan, Aragonese, Breton and Occitan.

The chief reason for inviting us was to celebrate the minority linguistic diversity of Europe with the aim of forming regular contact between us. This was clearly the rationale for the festival's name, 'Txikiak Handi' (Small Standing Tall), echoing the idea of the old principle "together we're stronger".

Two days of activities were arranged for us, including an opening meeting in which there were presentations from seven groups and organisations working to normalise the use of Basque in a wide range of areas. There was a chance as well for all the guest countries to make short presentations on the state of our native languages and to summarise the challenges we face in the future. It was interesting to see that, basically, all our languages are facing similar threats, the biggest one being the challenge of persuading young people to use the language in social settings.

The following day there was a visit to an 'ikastola' in Iruñea-Pamplona. The school had been built with money raised in a Nafarroa Oinez festival some years ago. It was great to witness the fruits of the Basques' labours as well as learn a bit about the structure of the education system there. Most significantly what struck me was the contribution and unflinching



commitment of parents in the task of running the schools, whether on a practical level, administrative or by fund raising.

The 'Txikiak Handi' festival was held on the Sunday. There was an official ceremony organised by Ikastola Andra Mari where we were able to make a statement in Welsh to the hundreds of people present. It was truly a wonderful experience to share Welsh with an audience that had never heard the language before. There were opportunities as well to give interviews to the press and the Basque media, another chance to raise the profile of Welsh on a wider stage.

It was great to witness the Basques' enthusiasm and energy. What's more, it was an unforgettable experience to hear all the languages being spoken side by side with each other. In addition the visit was an invaluable opportunity to stand back and evaluate the situation of the Welsh language and Welsh medium education from the outside.

Nafarroa Oinez 2009 was certainly a great chance to build bridges and strike friendships with countries that share the same vision as us in Wales, to ensure the survival and well-being of our greatest treasure as a nation, our language.

As a way of formalising and recording the meeting we drew up a manifesto summarising our demands and our hopes for minority languages into the future. The manifesto was translated into the six minority languages and every country received a copy. The wording of the manifesto is printed below.

Ceri Owen

### 'Small Standing Tall' declaration

On behalf of the organisations which we represent, we sign up to the following:

#### WE WISH TO DECLARE:

- That Europe is, fortunately, multi-lingual.
- Languages are cultural treasures, and as such bring variety to and enrich the countries of Europe.
- Languages are essential to the expression of a country's and its people's identity and their development.

#### WE WISH TO ASSERT:

- The right of minority languages to be respected.
- The right to live through the medium of our language in all aspects of life.
- The right to protection and assistance in the normalisation of our language, especially in the field of education.

#### WE COMMIT:

- To continue with the work of normalising our languages and building bridges between them since together the small can be strong.